**CYNGOR BRO MORGANNWG,**
**SWYDDFEYDD DINESIG,**
**HEOL HOLTON,**
**Y BARRI**
**CF63 4RU**

**HYSBYSIAD STATUDOL I GYNYDDU CAPASITI YSGOL GYMRAEG SANT BARUC, ST PAULS AVENUE, Y BARRI, CF62 8HT O 210 LLE I 420 LLE O MEDI 2021.**

**RHODDIR HYSBYSIAD** yn unol ag adrannau 42(1)(a) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013, fod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiad wedi'i reoleiddio i Ysgol Gymraeg Sant Baruc drwy:

- Cynyddu capasiti'r ysgol ar gyfer plant o oedran statudol, o 210 lle i 420 lle (paragraff 10 Atodlen 2 'y Ddeddf')

Mae'r ysgol yn un cyfrwng Gymraeg a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Ymgymerodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan Bro Morgannwg yn www.valeofglamorgan.gov.uk/westernvalereconfiguration

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2021. Bydd yr ysgol yn parhau yn ysgol gymunedol a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn o hyd. Bydd y cynnig yn arwain at gynyddu nifer derbyn a gyhoeddir yr ysgol o 30 i 60. Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i ddosbarth Derbyn yr ysgol yn 4/5 oed yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff fydd 60. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion oedran meithrin 3 i 4 oed yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf fydd 96 o ddisgyblion rhan amser. Nid yw trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion). Yn Ionawr 2019, roedd 194 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestr yr ysgol. Cynyddu capasiti'r ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol statudol o 210 lle i 420 lle. Bydd yr ysgol hefyd yn bodloni'r galw a ddaw o ddatblygiadau tai newydd i'r Glannau'r Barri.

Mae trefniadau Teithio Dysgwyr Cymru Gyfan[1] yn rhoi cymhwysedd i gludiant ysgol os yw disgyblion yn byw mwy na phellter cerdded i'w hysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded fel dwy filltir neu pellach i oedran cynradd a thair milltir neu pellach i ddisgyblion oedran uwchradd, fel y mesurir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Rhydd Bro Morgannwg drafnidiaeth yn unol â'r uchod. O ganlyniad i symud yr ysgol a'r newidiadau dilynol i ddalgylchoedd ysgol, caiff adolygiad o gymhwysedd disgyblion ei gynnal.

[1] Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 a Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014

Yn unol ag adran 49 ‘y Ddeddf’, o fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi’r cynigion hyn dan adran 48 'y Ddeddf', hynny yw erbyn 27 Mai 2010, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa Ddinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU neu e-bostiwch
JMJones@valeofglamorgan.gov.uk

Signed:



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
29 Ebrill 2019

**NODYN EGLURHAOL – NID YW HWN YN RHAN O’R HYSBYSIAD STATUDOL**

Mae’r Cyngor yn cynnig ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 lle i 420 lle o fis Medi 2021. Er mwyn gwneud lle ar gyfer y capasiti cynyddol hyn, cynigir bod Ysgol Sant Baruc yn cael ei symud i adeilad ysgol newydd yn Natblygiad Glannau’r Barri. Er bod trosglwyddo’r ysgol i’r adeilad newydd wedi’i gynnwys fel rhan o’r ymgynghoriad hwn, nid yw’n ddarostyngedig i’r broses statudol gan y byddai’r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau

Gwneir y cynnig o dan adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 y cyfeirir ato fel Addasiadau a Reoleiddir.
Y Cyngor yw Awdurdod Derbyn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn cynnig 96 lle meithrin rhan amser, a 420 lle cynradd. Bydd lle yn y feithrinfa i 96 o blant oed 3-4 (o’r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, nes iddyn nhw fynd i’r dosbarth derbyn) gael addysg ran amser yn yr ysgol. Ni fydd mynychu’r ysgol feithrin yn golygu bod lle o reidrwydd i’r plentyn yn nosbarth derbyn yr ysgol. Rhaid i’r rhieni wneud cais am le yn nosbarth derbyn eu dewis ysgol.

Gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol, yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, mewn codi adeilad newydd i Ysgol Sant Baruc mewn safle newydd. Amcanbris y project yw £7.417.